**CYNGOR CYMUNED BEDDGELERT**

**Cyfarfod 7fed o Ionawr 2019 am 7.30yh**
**Neuadd Gymunedol Beddgelert**

1. **Presennol:** Anne Till (AT), Cynghorydd Alwyn Gruffydd (AG), Dewi Roberts (DR), John Williams (JW), Richard Aherne (RA) ag Shirley Williams (SWW – Clerc)

2. **Absennol:** June Jones (JJ), Ffion Emlyn (FfE)

3. **Ymddiheuriadau:** Elgan Jones (EJ), Iola Till (IT) a Tomos Hughes (TH)

4. **Cofnodion – 3ydd o Ragfyr 2018:** Datganwyd eu cywirdeb gan AT a DR yn eilio.

5. **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion:** Dim

6. **Sefyllfa Ariannol**

   Datganiad banc dyddiedig 22ain o Ragfyr 2018 yn dangos balans o:

   (1) Cyfrif 80149101 - £2680.43
   (2) Cyfrif 41810189 - £1,909.78
   (3) Arian i mewn – Dim
   (4) Biliau wedi eu talu - Dim
   (5) Biliau i'w talu:

   | | |
   |---|---|
   | G & D Jones | £264.00 |

   (6) Adroddiad Chwarter 3 – Pwyllgor yn hapus efo'r adroddiad.

7. **Cais Precept –** Yn dilyn trafodaeth am wariant 2019/20 penderfynodd y Cyngor i wneud cais precept am £9500.00.

8. **Ceisiadau Cynllunio –** Dim**.**

9. **Asesiadau Risg Mynwentydd (coed a cherig beddi)** – Pris o £240.00 wedi ei dderbyn gan Ymgynghorwyr P Johnstone am wneud Asesiad Risg ar y cerrig beddi yn y 2 fynwent. SWW i gysylltu efo cwmni lleol er mwyn gael pris arall. Gan fod JJ yn absennol penderfynwyd trafod asesiad risg torri'r coed yn y cyfarfod nesaf.

10. **BDO – Cynllun Gweithredu –** Aelodau yn cytuno efo'r cynllun gweithredu a bod cysylltiad pellach yn cael ei wneud efo D Hinde er mwyn ceisio symud ymlaen efo'r wefan.

11. **Gohebiaeth**

    (1) Bethan Roberts, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol – Cyngor Gwynedd - Cynllun Partneriaethau 2019-20 & 2020-21 – Hysbyswyd y clerc nad oedd Cyngor Cymuned Beddgelert wedi bod yn rhan o'r cynllun yn y gorffennol oherwydd y costau cysylltiedig.

(2) Eryri Ramblers - Wal Llyn Cwellyn – Llythyr er gwybodaeth.
(3) Un-Llais - Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2019-20 – Yn unol â chytundeb cyflogaeth bydd cyflog y clerc yn codi i bwynt 25, sef £12.39 yr awr o'r 1af of Ebrill 2019.

**12. Materion lleol**

(1) 4 ebost wedi ei dderbyn gan drigolion lleol yn gwrthwynebu'r cynlluniau arfaethedig i roi llinellau melyn dwbl yn Stryd Gwynant, Beddgelert. Unwaith bydd y cynlluniau wedi eu derbyn, SWW i'w anfon ymlaen i'r trigolion o dan sylw yn ogystal ag anfon llythyr arall at Gyngor Gwynedd yn datgan gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned.
(2) Canolfannau Iaith – Hysbysodd AG y pwyllgor fod Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar ail-strwythuro Canolfannau Iaith y Sir. Byddai ail strwythuro'r canolfannau yn cael effaith newidiol ar gymunedau, felly penderfynwyd anfon llythyr yn gwrthwynebu'r ail strwythuro.
(3) Goleuadau Stesion - SWW i gysylltu efo Rheilffordd Eryri i'w hysbysu fod goleuadau coch sydd ar y lein ymlaen drwy'r nos yn ogystal â golau'r ystafell aros. Copi o'r llythyr i'w anfon ymlaen i'r Parc Cenedlaethol gan fod ardal Beddgelert yn ardal dywyll.
(4) Biniau Ailgylchu – Hysbyswyd y Pwyllgor fod y biniau ailgylchu wedi mynd o'r maes parcio. SWW i wneud ymholiadau i weld pam fod y biniau wedi cael eu symud a hefyd i weld a oes modd gael nhw'n ol.
(5) Stryd Gwynant, Beddgelert – Adroddodd JW ei fod wedi derbyn cwyn fod dŵr yn codi ar y lon yn dilyn i waith cael ei wneud ym mis Rhagfyr. SWW i gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynglyn â'r broblem.
(6) Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon – Trafodaeth ynglyn â lleoli'r plac i'w drafod yn y cyfarfod nesaf

**13. Llys Buckley (cyfarfod caeedig)**

Dŵr wedi bod yn dod drwy lawr yr ystafell ymolchi. Trefniadau wedi ei wneud i Harriet Lee trwsio'r broblem.

**14. Unrhyw Fater Arall**

System PAYE – Problemau wedi bod tra'n defnyddio'r system. AT i chwilio drwy hen e-byst am ragor o fanylion.

**15. 15. Dyddiad Cyfarfod Nesaf –** 28ain o Ionawr 2019 am 7.30yh.